# CYD BWYLLGOR ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

Cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1, Neuadd y Dref, Wrecsam ddydd Gwener, 23 Tachwedd 2018.

**YN BRESENNOL**

Cynghorydd Julian Thompson Hill (Cyngor Sir Ddinbych)
Cynghorydd Carolyn Thomas (Cyngor Sir y Fflint)
Cynghorydd Hugh Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)
Cynghorydd David Kelly (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

**HEFYD YN BRESENNOL**

Ceri Lloyd (Swyddog CDC AHNE), David Shiel (Swyddog AHNE Cynorthwyol), Howard Sutcliffe (Swyddog AHNE), Michael Skuse (Partneriaeth AHNE a Chyfeillion yr AHNE), Andy Worthington (Cadeirydd Partneriaeth yr AHNE), Paul Mitchell (Cyfoeth Naturiol Cymru), Iwan Davies (CSDd), Paula O'Hanlon (CSDd), Huw Rees (Pennaeth Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth CSDd), Gareth O Williams (Rheolwr Cyllid, CSDd) Gary Williams (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd CSDd), Dereck Butler (CSFf), Tom Woodall (CSFf), Allan Forrest (Rheolwr Prosiect Adfywio, Safle Treftadaeth y Byd CBSW), Anna Irwin (Uwch Swyddog Cadwraeth a'r Amgylchedd, CBSW) a Ken Bickerton (Swyddog Pwyllgorau, CBSW).

## 1 CYFLWYNIADAU, YMDDIHEURIADAU A DATGAN CYSYLLTIAD

**Yn absenoldeb y Cadeirydd, llywyddodd Is-Gadeirydd y Cyd-bwyllgor, y Cynghorydd Carolyn Thomas.**

Cyflwynwyd ymddiheuriad am absenoldeb ar ran y Cynghorydd Tony Thomas, Cyngor Sir Ddinbych.

Gofynnodd y Cadeirydd i bawb oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain.

## 2 COFNODION CYFARFOD Y CYDBWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 22 MEHEFIN 2018

Cyflwynwyd cofnodion y Cyd-bwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2018.

<u>Materion yn Codi:</u>

Eitem 3, tudalen 4 – mewn perthynas â sbwriel wedi'i daflu ar ochr y ffyrdd ac amlder clirio sbwriel oddi ar y tair cefnffordd (A55, A494 a'r A5), dywedodd y Cynghorydd Hugh Jones ei fod wedi ysgrifennu at Ken Skates, Gweinidog yr Economi a Chludiant Llywodraeth Cymru. Mae Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (ACGChC) yn awr wedi rhoi'r gorau i roi arian i awdurdodau lleol glirio sbwriel oddi ar ochr y ffyrdd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn

parhau i glirio sbwriel ar hyd yr A483 ac o fewn y safle Treftadaeth y Byd ar ei draul ei hun.

Eitem 8, tudalen 6 - mewn perthynas â chŵn yn baeddu, mae polisi ‘ffon a fflic’ yn ei le gan GNC ar ei dir ei hun. Mae gan Awdurdodau Lleol bolisi ychydig yn wahanol.

**PENDERFYNWYD - y dylid cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2018 a’u llofnodi fel cofnod cywir.**

## 3 COFNODION DRAFFT CYFARFOD PARTNERIAETH YR AHNE A GYNHALIWYD AR 13 HYDREF 2018

Croesawodd y Cadeirydd Andy Worthington, Cadeirydd Partneriaeth yr AHNE i’r cyfarfod.

Amlygodd Andy Worthington y prif bwyntiau a drafodwyd yn y cyfarfod Partneriaeth a rhoddodd ddiweddariadau perthnasol lle bo hynny'n berthnasol.

Wrth ystyried y cofnodion, cododd Aelodau’r materion canlynol yn benodol:

- Prosiect Gylfinir Cymru
- Roedd yr RSPB wedi cyflwyno cais am arian i Lywodraeth Cymru ar ran y Grŵp Partneriaeth. Menter Awyr Dywyll/Cynllun Goleuo: Croesawyd y gwaith y mae Cyngor Sir Ddinbych yn ei wneud i newid eu goleuadau stryd am fylbiau kelvin 3000. Dywedodd y Cynghorydd David Kelly mai’r Cynghorau Cymuned sy’n gyfrifol am oleuadau stryd mewn llawer o ardaloedd ac y dylid eu hannog hwythau i ddefnyddio bylbiau kelvin 3000 pan fydd eu lampau ar fin cael eu newid. Hefyd dylid ystyried ardaloedd byffer i atal gollyngiad golau o dir ger ffin yr AHNE.
- Tân Mynydd Llandysilio-yn-Iâl Dywedodd Gary Williams (CSDd) y bydd cyfarfod arbennig o Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei gynnal ym mis Chwefror/Mawrth 2019 er mwyn sicrhau y defnyddir y gwersi a ddysgwyd yn dilyn y digwyddiad i wella ymatebion amlasiantaeth i argyfyngau tebyg yn y dyfodol a hefyd i bennu a ellid gwneud gwell defnydd o arferion rheoli tir ac i asesu effaith y tân ar yr ardal leol, yr amgylchedd a busnesau. Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Llangollen a bydd ar agor i'r cyhoedd.

**PENDERFYNWYD – y dylid nodi cofnodion cyfarfod Partneriaeth yr AHNE.**

## 4 CYLLIDEB Y CYDBWYLLGOR

Cyflwynodd Gareth O Williams (Cyngor Sir Ddinbych) yr adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) a oedd yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw’r AHNE ar gyfer 2018/19 fel y manylwyd yn Atodiad 1. Gofynnwyd i'r aelodau hefyd nodi Datganiad Blynyddol Swyddog Archwilio Cymru ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 (Atodiad 2).

**PENDERFYNWYD - y dylid derbyn y diweddariad a nodi’r cynnwys.**

## 5 TIRWEDDAU'R DYFODOL YNG NGHYMRU

Cyfeiriodd Howard Sutcliffe (Swyddog AHNE) at lythyr, dyddiedig 14 Mai 2018, gan Hannah Blythyn, AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Llywodraeth Cymru, yn gofyn am farn swyddogion AHNE ar faterion sydd angen sylw er mwyn sicrhau mwy o gydraddoldeb rhwng yr AHNE a Pharciau Cenedlaethol Cymru. Paratowyd ymateb ar y cyd gan y bum aelod arweiniol yr AHNE yng Nghymru mewn cydweithrediad â chydweithwyr o GNC a Chymdeithas Genedlaethol yr AHNE. Mae deuddeng cynnig wedi eu cyflwyno i Weinidogion gan gynnwys cynigion yn ymwneud â statws a phroffil.

Wrth ystyried yr adroddiad, codwyd y materion canlynol:-

- Ar hyn o bryd nid yw'r AHNE yn ymgynghorai statudol ar gyfer ceisiadau cynllunio yn eu hardal.
- Gall Parciau Cenedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol orfodi rhai arferion ffermio penodol yn eu hardal.
- Croesawyd yr awgrym y dylid cael cynrychiolaeth AHNE ar Bartneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Tirwedd Dynodedig' newydd nad yw eto wedi ei chynnull.

**PENDERFYNWYD – nodi'r adroddiad a bod diweddariad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor hwn maes o law.**

## 6 ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA DATBLYGU CYNALIADWY 2017-2018

Cyflwynodd Ceri Lloyd (Swyddog Datblygiad Cynaliadwy yr AHNE) yr adroddiad a dywedodd bod yr arian grant o 50k a gafwyd gan Gronfa Datblygiad Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn 2017/18 wedi cefnogi 19 o brosiectau unigol, 3 aelod o staff a dros 3000 o oriau gwirfoddolwyr. Roedd y nawdd cyfatebol a gafwyd mewn arian cyhoeddus/preifat ac amser yn cyfatebol i £270k. Wedi hynny dywedodd sut yr oedd arian y prosiect CDC wedi cyfrannu tuag at flaenoriaethau Cynllun Rheoli'r AHNE.

Nododd y Cadeirydd lwyddiant diamheuol y rhaglen a'r gefnogaeth y mae'n ei rhoi i amrywiaeth o weithgareddau ac o ran sicrhau ymgysylltiad y cymunedau yn nalgylch yr AHNE.

**PENDERFYNWYD – y dylid nodi'r adroddiad a bod y Cadeirydd yn anfon copi ohono at Lywodraeth Cymru er mwyn amlygu'r gwaith da sy'n cael ei wneud gan y cynllun.**

## 7 CYNLLUN RHEOLI CYNALIADWY AR GYFER ANIFEILIAID SY'N PORI

Rhoddodd David Shiel (Swyddog AHNE Cynorthwyol) ddiweddariad ar lafar gan ddweud y cafwyd arian ar gyfer 2018/20 a bod dau aelod o staff, i'w lleoli ym Mharc Gwledig Loggerheads, wedi eu penodi. Mae'r cynllun yn cynnig grantiau ar gyfer grwpiau cydweithredol er mwyn ailsefydlu ardaloedd ymylol o dir nad ydynt o fewn ardaloedd ffermio. Bydd y prosiect yn cynorthwyo deugain o safleoedd.

Croesawyd y fenter gan rai Aelodau fel ffordd o ddiogelu, hybu a chynnal y fferm fynydd draddodiadol Gymreig.

**CYTUNWYD – y dylid nodi'r adroddiad.**

## 8 GWADDOL MENTER GWELLA TIRWEDD I WYDDGRUG Y GRID CENEDLAETHOL A SPEN (CYNLLUNIAU GOSOD CEBLAU DAN DDAEAR)

Cyflwynodd Howard Sutcliffe (Swyddog AONB) yr adroddiad a dywedodd fod Rhwydweithiau Ynni Scottish Power yn ystyried cynigion ar gyfer ardaloedd i'w cynnwys yng ngham nesaf y prosiect llinellau trydan tanddaearol mewn tirweddau gwarchodedig. Roedd map yn dangos llinellau uwchben y Grid Cenedlaethol wedi'i ddosbarthu'n barod.

Cafwyd trafodaeth bellach a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd ystyriaeth eisoes yn cael ei roi i roi'r llinell ger Eglwys Llangar o dan y ddaear.
- Roedd y Grid Cenedlaethol yn paratoi Asesiad Cymeriad Tirwedd o'r llinell rhwng Legacy a Nercwys. Roedd y llinell hon ger ffin yr AHNE ond roedd o fewn y dirwedd warchodedig.
- Dylid ystyried rhoi'r llinell uwchben ym Mharc Gwledig Tŷ Mawr (yn bennaf ar hyd Dyffryn Dyfrdwy) o dan y ddaear.
- Roedd y Grid Cenedlaethol yn rhoi arian ar gyfer Mentrau Gwella Tirwedd er mwyn helpu i leihau effeithiau gweledol y seilwaith trydan. Gwnaed cais am gynllun plannu cloddiau gan berchnogion tir yn Nyffryn Morwynion.
- Cytunodd Howard Sutcliffe y byddai'n gwneud rhagor o ymchwiliadau i linell uwchben rhwydwaith ynni SP yn Chwarel y Mwynglawdd.

**PENDERFYNWYD – nodi'r wybodaeth a cheisio rhagor o wybodaeth am statws y llinell drydan uwchben yn y Mwynglawdd.**

## 9 Y DIWEDDARAF AM EIN PROSIECT TIRLUN DARLUNIADWY

Rhoddodd David Shiel (Swyddog AHNE Cynorthwyol) adroddiad llafar ar y cynnydd a wnaed ers y cyfarfod diwethaf ac amlygodd y pwyntiau canlynol yn benodol:

- Mae dau o'r tri phenodiad allweddol yn awr wedi eu gwneud.
- Mae Kate Thompson wedi'i phenodi'n Swyddog Partneriaeth ETD a Sallyanne Hall wedi'i phenodi'n Swyddog Cymuned ETD. Roedd y swydd Swyddog Cyfathrebu'n wag o hyd. Bydd y tîm ETD wedi ei leoli yn y Caban, Plas Newydd. Mae cais nawdd cyfatebol ETD ar gyfer Cynllun Cerdded Iach wedi ei gymeradwyo.
- Mae angen terfynu'r Rhaglen 'Out and About'.
- Cafwyd nawdd gwerth £6k gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect Llwybr Clincer o Ganolfan Gymunedol Llangollen at Gamlas Llangollen.

**CYTUNWYD – y dylid nodi'r adroddiad.**

## 10 CRYNODEB O YMGYNGHORIADAU CYNLLUNIO'R AHNE O FIS EBRILL 2017 HYD AT FIS MEDI 2018

Cyflwynodd Howard Sutcliffe (Swyddog AHNE) yr adroddiad, a oedd er gwybodaeth yn unig .

**CYTUNWYD – y dylid nodi'r adroddiad.**

## 11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd Howard Sutcliffe (Swyddog AHNE) y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol (a ddosbarthwyd eisoes) ac amlygodd y prif eitemau a restrwyd ar gyfer eu hystyried.

Wrth drafod yr adroddiad, nodwyd y materion canlynol, yn benodol:

- Llinellau rhwydwaith SP – mae cynlluniau Tŷ Mawr a Rhaeadr y Bedol ar y trywydd iawn i'w cwblhau erbyn Mawrth 2019. Roedd pedwar cynllun ychwanegol yn cael eu gwerthuso.
- Roedd dyddiadau'n cael eu trefnu ar gyfer cyflwyno'r gwobrau am gyfraniadau neilltuol i'r AHNE 2018/19. Gardd Gymunedol Corwen (Gwobr AHNE) a John Lawton Roberts (Gwobr Gwirfoddolwr AHNE).

**PENDERFYNWYD – Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.**

## 12 DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL 2019

Atgoffwyd y Pwyllgor y bydd cyfarfod nesaf Cyd-bwyllgor yr AHNE yn cael ei gynnal ddydd Gwener, 8 Mawrth 2019. Awgrymwyd y dylid yn y dyfodol cynnal y cyfarfodydd hyn mewn gwahanol leoliadau ledled ardal yr AHNE.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr)
Derek Butler a/ac Tony Thomas